Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Canterbury House**

**Canterbury House**
**77 Ffordd Dyserth**
**Y Rhyl**
**LL18 4DT**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

26/06/2024

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun*

# Canterbury House

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal â Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Akari Care Cymru Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 51 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 1 Mehefin 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru.' |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn fodlon ar y cymorth y maent yn ei gael yng Nghartref Canterbury a chânt eu cefnogi gan staff pwyllog a pharchus sy'n eu hadnabod yn dda. Mae'r staff gofal yn rhoi sicrwydd cadarnhaol ac yn rhyngweithio mewn ffordd feddylgar. Caiff y bobl eu cefnogi i wneud dewisiadau am eu bywydau o ddydd i ddydd lle y bo'n bosibl, ac mae'r cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn fanwl, ac yn adlewyrchu anghenion y bobl. Caiff adolygiadau eu gwneud o fewn y terfynau amser rheoliadol a gwnaed newidiadau i gynlluniau personol mewn ymateb i hynny. Mae amrywiaeth o weithgareddau ar gael a chaiff cydgysylltwyr gweithgareddau dynodedig eu cyflogi i'w hwyluso, gyda chefnogaeth y staff gofal.

Mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y tîm rheoli a'u bod yn cael hyfforddiant i ddiwallu anghenion y bobl. Mae trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld yn rheolaidd er mwyn goruchwylio'r ffordd y caiff y cartref ei reoli ac mae'n casglu barn y bobl a'u perthnasau er mwyn gwella a datblygu'r gwasanaeth. Caiff y wybodaeth a gesglir ei hadlewyrchu yn yr adroddiadau ar adolygiad o ansawdd y gofal. Mae'r amgylchedd yn lân ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae'r gwasanaeth yn gweithredu'n unol â'r datganiad o ddiben.

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd, a rhoddir ystyriaeth i'r pethau sy'n bwysig iddynt. Gwrandewir ar y bobl ac ystyrir eu safbwyntiau; os na allant gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau, caiff eu perthnasau neu eu heiriolwyr eu cynnwys yn y prosesau gwneud penderfyniadau. Mae'r gwasanaeth yn goruchwylio'r Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid yn dda ac yn sicrhau y cydymffurfir â'r amodau. Mae'r staff gofal yn gweithio o'r cynlluniau personol sydd wedi'u hysgrifennu â'r person ac maent yn darparu ar gyfer dewisiadau'r bobl. Mae'r bobl a'u perthnasau yn cael eu cynnwys yn y gwaith o wella a datblygu'r gwasanaeth. Caiff dewisiadau bwyd a gweithgareddau eu hannog ac mae'r staff gofal yn gwrando ar ddymuniadau'r bobl. Caiff clychau galw eu hateb mewn modd amserol, fel nad yw'r bobl yn gorfod aros yn hir pan fydd angen cymorth arnynt. Mae'r cofnodion gofal yn rhoi'r cyfarwyddiadau sydd eu hangen ar y staff gofal i gefnogi'r bobl yn gywir a chynhelir yr adolygiadau yn unol â'r amserlenni rheoliadol yn rheolaidd. Mae'r staff cymorth yn gweithio'n dda gyda'i gilydd, gan ddarparu cymorth parchus, tosturiol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r ymwelwyr yn dod i'r cartref yn rheolaidd ac mae gan y bobl gydberthnasau da ag eraill y maent yn byw gyda nhw.

Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Mae rhai o'r staff yn siarad Cymraeg. Mae'r gwasanaeth yn cynnig cyrsiau Cymraeg i'r staff, ac mae rhai o'r dogfennau ar gael yn Gymraeg. Yn dilyn yr adborth, mae lefelau uwch o weithgareddau ar gael yn y cartref. Mae tri aelod o staff wedi cael eu cyflogi fel cydgysylltwyr gweithgareddau, gan rhoi cymorth saith diwrnod yr wythnos. Mae hysbysfyrddau yn rhoi manylion am ddigwyddiadau a gynllunir. Caiff dyddiau thema a diwylliannol eu cynllunio lle gall y staff wisgo i fyny, a chaiff prydau bwyd gwahanol eu blasuo, ac os bydd y bobl yn eu hoffi, cânt eu hychwanegu at y fwydlen. Mae un aelod o'r staff wedi cael ei gyflogi'n benodol i dreulio amser gyda'r bobl na allant symud ac na fyddant yn gadael eu hystafelloedd yn aml. Er enghraifft, mae'n darllen iddynt, yn rhannu manylion am y tywydd, ac yn tylino eu dwylo.

Caiff y bobl eu hamddiffyn rhag camdriniaeth ac esgeulustod gan fod y staff gofal yn cael hyfforddiant ar ddiogelu, ac mae polisïau a gweithdrefnau diogelu ar waith a chânt eu dilyn. Caiff y bobl eu cefnogi i gynnal a gwella eu hiechyd a'u llesiant drwy gyfleoedd i gael gofal a chyngor arbenigol pan fydd eu hangen arnynt. Mae'r staff gofal a'r rheolwr yn rhagweithiol ac yn cydweithio ag asiantaethau cymorth. Dywedodd un gweithiwr proffesiynol wrthym, '*staff here are fantastic, the standard has never dropped, they are good as escalating health concerns and people live here for so long because they are very well looked after'.*

Mae cynllun y cartref yn helpu'r bobl i gyflawni safon dda o lesiant. Caiff y bobl eu hannog i fod yn annibynnol ac i symud; gallant fynd i bob ystafell yn y cartref yn ddiogel. Mae'r

strategaethau ar gyfer lleihau'r risg i'r bobl wrth iddynt symud o amgylch y cartref yn ddigonol. Mae'r person â chyfrifoldeb wedi nodi peryglon posibl ac wedi cymryd camau i leihau'r risgiau i'r bobl.

## Gofal a Chymorth

Gall y bobl deimlo'n hyderus bod gan ddarparwr y gwasanaeth gynllun cywir a chyfredol am y ffordd y dylid diwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Caiff y bobl eu hannog i gydgynhyrchu eu cynlluniau personol ac os na allant, mae'r perthnasau yn cyfrannu yn eu lle. Mae'r cynlluniau personol yn nodi'r dymuniadau ynghylch penderfyniadau o ddydd i ddydd fel prydau bwyd, dillad y mae'r bobl yn dymuno eu gwisgo a cherddoriaeth a rhaglenni teledu y maent yn hoff ohonynt. Maent yn trafod canlyniadau unigol, hoff a chas bethau, a phobl a lleoedd pwysig. Mae'r cynlluniau personol a'r asesiadau risg yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn gyfredol, yn gywir a chânt eu hadolygu'n fisol. Caiff asesiadau cychwynnol eu cynnal cyn i'r bobl symud i'r cartref, a gwblhawyd gan y dirprwy reolwr ac maent yn ystyried a fydd y bobl yn cyd-dynnu'n dda ag eraill sydd eisoes yn byw yn y cartref. Mae'r bobl yn cael gofal yn unol â'u cynlluniau personol a'u hasesiadau risg ac mae'r staff yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn ystod cyfnodau newid shifftiau dyddiol trylwyr. Rhoddir cymorth mewn ffordd ofalgar gan staff gofal medrus a thosturiol. Mae'r cydberthnasau rhwng y staff gofal a'r bobl yn gadarnhaol. Mae'r amseroedd bwyd yn hamddenol, ac mae'r bobl yn cael dewis yr hyn y maent am ei fwyta a gallant gael mwy os byddant yn dymuno. Darperir cymorth amserol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn i'r rhai sydd angen cymorth i fwyta. Caiff y bwyd ei gyflwyno'n dda ac mae'n edrych yn flasus. Caiff dewisiadau deietegol eu cyflwyno i'r gegin a chydymffurfir â gofynion deietegol arbenigol. Gwelsom gyfarpar codi a chario priodol yn cael eu defnyddio drwy gydol ein hymweliad.

Mae'r cofnodion yn dangos bod cyngor a chymorth arbenigol gan weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol ar gael i'r bobl. Caiff y cynlluniau gofal a'r asesiadau risg eu diweddaru i adlewyrchu cyngor proffesiynol, ac mae'r staff gofal yn cwblhau'r hyfforddiant priodol ac arbenigol i sicrhau bod anghenion y bobl yn cael eu diwallu'n briodol. Mae'r staff gofal yn teimlo y gallant fynd at y rheolwr os bydd ganddynt unrhyw bryderon.

Gall y bobl fod yn fodlon bod gan ddarparwr y gwasanaeth bolisïau atal a rheoli heintiau, gyda mesurau da ar waith i gadw'r bobl yn ddiogel. Mae'r holl staff yn cwblhau hyfforddiant ar atal a rheoli heintiau, ac mae amserlenni glanhau cynhwysfawr ar waith a chaiff archwiliadau atal a rheoli heintiau eu cwblhau'n rheolaidd.

Mae'r arferion rhoi a storio meddyginiaethau yn y cartref yn dda ac yn cadw'r bobl yn ddiogel. Mae staff sydd wedi'u hyfforddi yn rhoi meddyginiaeth ac maent wedi cwblhau hyfforddiant priodol i wneud hynny. Caiff archwiliadau rheolaidd o feddyginiaethau eu cwblhau gan y tîm rheoli ac ymdrinnir ag unrhyw gamau gweithredu yn brydlon.

## Yr Amgylchedd

Mae'r bobl yn byw mewn amgylchedd sy'n addas ar gyfer eu hanghenion. Mae darparwr y gwasanaeth yn buddsoddi yng ngwaith addurno a chynnal a chadw'r cartref er mwyn sicrhau ei fod yn diwallu anghenion y bobl. Mae'r décor yn y cartref yn newydd, yn olau ac yn ysgafn. Mae'r holl ystafelloedd a'r ardaloedd cymunedol mewn cyflwr da. Ceir ardaloedd cymunedol ar bob llawr i'r bobl eu defnyddio. Mae ystafell synhwyraidd wedi cael ei chreu sy'n cynnig ardal dawel i'r bobl wrando ar gerddoriaeth hamddenol â goleuadau hamddenol. Gall y bobl gymdeithasu yn yr ardaloedd cymunedol neu gael preifatrwydd yn eu hystafelloedd eu hunain, os byddant yn dymuno gwneud hynny. Mae lifft yn y cartref i'r bobl symud rhwng lloriau gyda chefnogaeth y staff. Mae'r ystafelloedd gwely'n lân, yn daclus ac wedi'u personoli ag eitemau personol, ac mae gan rai ensuites â thoiled a sinc. Caiff cyfarpar codi a chario ei storio'n hygyrch, ond yn ddiogel allan o'r ffordd er mwyn atal pob rhag baglu a disgyn. Mae'r ardd yn ddiogel ac mewn cyflwr da, a gellir ei chyrraedd o'r prif ardaloedd byw ar y llawr gwaelod. Mae'r bobl yn mynd i mewn i'r cartref drwy ddrws ffrynt sydd wedi'i gloi ac mae ymwelwyr yn gorfod llofnodi a dangos manylion adnabod wrth gyrraedd. Gwelsom staff glanhau o amgylch yr adeilad drwy gydol ein hymweliad ac roedd pob ardal yn lân ac yn daclus.

Gall y bobl fod yn hyderus bod darparwr y gwasanaeth yn nodi ac yn lliniaru risgiau i iechyd a diogelwch. Caiff archwiliadau iechyd a diogelwch eu cwblhau'n rheolaidd, a chaiff camau gweithredu eu cymryd yn brydlon gan y staff cynnal a chadw. Caiff hyn ei fonitro gan y tîm rheoli a'r Unigolyn Cyfrifol. Mae unigolyn cynnal a chadw wedi cael ei gyflogi i ymdrin ag unrhyw faterion amgylcheddol a all godi yn ogystal â rheolwr ystadau sy'n goruchwylio'r gwaith sydd angen ei wneud. Mae gan y cartref y sgôr hylendid bwyd uchaf. Caiff gwiriadau iechyd a diogelwch arferol eu cwblhau ar gyfer diogelwch tân, diogelwch dŵr a chyfarpar, ac mae'r cofnodion yn dangos bod y gwiriadau cynnal a chadw, diogelwch a gwasanaethu gofynnol ar gyfer y lifft a'r systemau nwy a thrydan yn gyfredol.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Gall y bobl fod yn hyderus bod gan ddarparwr y gwasanaeth systemau ar waith ar gyfer llywodraethu a goruchwylio'r gwasanaeth. Caiff archwiliadau ar yr holl feysydd allweddol eu cwblhau bob mis gan y staff ar lefel rheoli, gan sicrhau goruchwyliaeth o ansawdd uchel. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd i arolygu'r eiddo, gwirio cofnodion a chasglu barn y bobl a'r staff. Mae'r adroddiadau sy'n cofnodi ymweliadau'r Unigolyn Cyfrifol yn dangos agweddau ar y trefniadau ar gyfer rhedeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd, ac maent yn gynhwysfawr ac o ansawdd uchel, gan nodi camau gweithredu clir o ganlyniad. Mae'r cartref yn cynnal arolwg o ansawdd y gofal bob chwe mis a chaiff canlyniad hyn ei adlewyrchu yn yr adroddiadau ar yr adolygiad o ansawdd y gofal. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn casglu adborth yn uniongyrchol gan y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r preswylwyr a'r perthnasau yn rhoi adborth mewn cyfarfodydd misol lle mae'r rheolwyr yn bresennol, a chaiff bwrdd ei arddangos yng nghyntedd y cartref, yn rhoi gwybod i'r rhai sy'n bresennol am yr hyn sydd wedi cael ei wneud neu ei newid mewn ymateb i'w hadborth. Mae'r bobl a'u perthnasau yn dweud y gallant siarad â'r rheolwr am newidiadau i'r gofal a chymerir camau gweithredu. Mae darparwr y gwasanaeth yn sicrhau y gall y bobl gael gafael ar ganllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth a'r datganiad o ddiben.

Gall y bobl fod yn fodlon y byddant yn cael eu cefnogi gan wasanaeth sydd â niferoedd priodol o staff addas. Mae gan y staff gofal y wybodaeth, y cymhwysedd, y sgiliau a'r cymwysterau i ddarparu'r lefelau o ofal a chymorth sydd eu hangen i alluogi'r bobl i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae'r cofnodion yn dangos bod gan y rheolwr niferoedd addas o staff ar bob shifft i gefnogi anghenion y bobl ac mae aelodau newydd o staff yn cyflawni gwiriadau fetio cyn dechrau gweithio yn y cartref. Mae'r bobl yn cael eu sefydlu yn benodol i'w rôl ac mae bron pob aelod o'r staff yn cael arfarniadau blynyddol a chyfarfodydd goruchwylio un i un misol gyda'r rheolwr. Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan y rheolwr a gallant dderbyn yr hyfforddiant gofynnol i ddiwallu anghenion y bobl, gan ddweud wrthym *it's lovely to work here, the management are so supportive and their door is always open. I have worked in other places, and this is the best place I have worked'.* Darperir hyfforddiant drwy gyfuniad o ddysgu wyneb yn wyneb ac electronig, a chaiff y cofnodion hyfforddiant eu hadolygu a'u diweddaru er mwyn sicrhau eu bod yn adlewyrchiad cywir o gydymffurfiaeth â gofynion hyfforddiant. Mae'r staff gofal wedi cofrestru â rheoleiddiwr y gweithlu, Gofal Cymdeithasol Cymru, neu wrthi'n gwneud hynny.

Mae pob nyrs sy'n gweithio yn y gwasanaeth wedi cofrestru â'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth.

Gall y bobl fod yn hyderus bod darparwr y gwasanaeth yn goruchwylio trefniadau ariannol y gwasanaeth a'r buddsoddiad ynddo, er mwyn sicrhau ei fod yn gynaliadwy yn ariannol ac yn cefnogi'r bobl i fod yn ddiogel ac i gyflawni eu canlyniadau personol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |
| 57 | Nid oedd pob aelod o'r staff wedi dilyn y gweithdrefnau diogelwch tân sydd ar waith pan oedd angen. Sicrhau bod pob aelod o'r staff yn gyfarwydd â'r camau y dylent eu cymryd os bydd tân. | Cyflawnwyd |

## A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 30/07/2024